OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 2527

## Rheoliadau Asiantaethau Nyrsys (Cymru) 2003

## RHAN IV

## AMRYWIOL

### Cydymffurfio â'r rheoliadau

**26.** Os oes mwy nag un person cofrestredig mewn perthynas ag asiantaeth, ni fydd yn ofynnol i unrhyw un o'r personau cofrestredig wneud unrhyw beth y mae'n ofynnol o dan y rheoliadau hyn iddo gael ei wneud gan y person cofrestredig os yw wedi'i wneud gan un o'r personau cofrestredig eraill.

### Tramgwyddau

**27.**—(1) Bydd torri neu fethu â chydymffurfio ag unrhyw un o darpariaethau rheoliadau 4 i 23 yn dramgwydd.

(2) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol ddwyn achos yn erbyn y person a oedd ar un adeg, ond nad yw bellach, yn berson cofrestredig, mewn perthynas â methiant i gydymffurfio â rheoliad 17.

### Ffioedd

**28.**—(1) Mae Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Ffioedd) (Cymru) 2002(**1**) yn cael eu diwygio yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn y paragraff sy'n dwyn y pennawd "Arrangements of Regulations", ychwanegir y llinell ganlynol at y diwedd "13. Annual fee – nurses agencies".

(3) Yn rheoliad 2(1) —

(a) ar ôl y diffiniad o "the Act" ychwanegwch —

""the 1957 Act" means the Nurses Agencies Act 1957";

(b) ar ôl y geiriau

""agency" means a fostering agency"

ychwanegwch y geiriau "or nurses agency";

(c) yn y diffiniad o "existing undertaking" ychwanegwch yn y man priodol —

"(e) a nurses agency that is licensed immediately before 2 Hydref 2003 under the 1957 Act;".

(4) Ar ôl rheoliad 12 (Annual fee – fostering agencies and local authority fostering services), mewnosodwch y rheoliad canlynol —

(**1**) O.S. 2002/921 fel y'i diwygiwyd gan O.S.2003/237 ag O.S. 2003/781.

"**Annual fee – nurses agencies**

**13.**—(1) The annual fee in respect of a nurses agency is £500.

(2) The annual fee in respect of a nurses agency shall be first payable by the registered provider on the date specified in respect of him or her in paragraph (3) ("the first date") and thereafter on the anniversary of the first date.

(3) The specified date is —

(a) in the case of the registered provider of a nurses agency that is an existing undertaking —

(i) in a case where a licence fee was payable under the 1957 Act in respect of the undertaking, the anniversary of the date on which the last fee was payable;

(ii) in any other case, 31st December 2003;

(b) in the case of a registered provider who is a new provider, the date on which a certificate of registration is first issued under Part II of the Act in respect of that registered provider of the nurses agency."

**Cofrestru**

**29.** Mae rheoliad 2(1) o Reoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002 (**2**) yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn —

(a) yn y diffiniad o "appropriate office of the National Assembly", mewnosodwch ar ôl is-baragraff (e) —

"(f) (i) if an office has been specified under regulation 2(4) of the Nurses Agencies (Wales) Regulations 2003 (**3**), that office;

(ii) in any other case, any office of the National Assembly."

(b) yn y diffiniad o "statement of purpose", mewnosodwch ar ôl is-baragraff (e) —

"(f) in relation to a nurses agency, the written statement required to be compiled in relation to the nurses agency in accordance with regulation 4(1) of the Nurses Agency (Wales) Regulations 2003."

**Darpariaethau trosiannol**

**30.** Bydd Atodlen 5 i'r rheoliadau hyn, sy'n gwneud darpariaethau trosiannol, yn effeithiol.

(**2**) O.S. 2002/919 (Cy. 107) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/237.
(**3**) O.S.